

RHAGARWEINIAD

Mae ffrwythau gwiall (e.e. mafon, mwyr duon, mwyr Tay, mwyr Logan) yn dod yn fwy fwy poblogaidd gan bod cymaint o ddefnydd y gellir ei wneud ohonynt ac nad oes angen fawr ddim paratoi cyn eu bwyta. Maent yn ddewis iach gan eu bod yn llawn gwrthocsidyddion a fitaminau. Mae ffrwythau gwiall yn ddefnyddiol i gynhyrchu jamiau, coulis a suddion.

Mae'r diddordeb mewn ffrwythau gwiall wedi datblygu'n bennaf oherwydd bod archfarchnadoedd yn cynnig amrywiaeth cynyddol o ffrwythau; gall y rhain fod wedi eu mewnfurio neu eu tyfu gartref. Mae marchnadoedd eraill posibl i gynhyrchwyr Cymreig, yn cynnwys hel eich hun, siopau fferm a marchnadoedd ffermwyr. Gall ffrwythau dros ben gael eu rhewi a'u haddasu'n nwyddau eraill neu eu gwerthu fel ffrwythau wedi eu rhewi sy'n barod i'w defnyddio.



Mwyar Logan (chwith) a Mwyar Tay (dde)

Tymor cynhyrchu ffrwythau gwiall yn yr awyr agored yng Nghymru yw oddeutu Mehefin i Dachwedd – yn dibynnu ar y lleoliad a'r tywydd. Gellir dechrau cynhyrchu mewn tai gwydr wedi'u cynhesu yn Ebrill ond mae angen bod yn ofalus gyda'r system hon gan fod cymaint o nwyddau rhad o Sbaen ar gael yn DU yr adeg hon o'r flwyddyn. Felly, efallai mai'r peth gorau yw anelu at gynhyrchu o ganol Mai ymlaen, a bydd angen llai o gostau gwresogi ar gyfer hynny hefyd.

Gan mai mafon yw'r ffrwythau gwiall mwyaf cyffredin, mae gweddill y daflen hon yn canolbwyntio ar eu cynhyrchu.

DECHRAU ARNI

Nid yw mafon yn tyfu'n dda mewn tir lle ceir draeniad gwael ac felly mae'n bwysig rhoi sylw manwl i ddraeniad y tir lle rydych yn bwriadu eu tyfu. Yn ddefnyddol, dylai'r pridd fod o ansawdd lomaidd tywodlyd, ond gellir cynhyrchu ffrwythau'n llwyddiannus mewn pridd trymach os caiff ei drin yn arbennig o ofalus. Hefyd dylid gofyn i rywun sy'n deall y cnwd gael golwg ar y safle tyfu dan sylw cyn dechrau unrhyw weithgaredd. Os mai draeniad gwael sydd ar y safle, neu bod lleoedd isel y gall dŵr hel ynddynt, dylid ystyried tyfu'r ffrwythau y tu allan i'r pridd. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd angen chwilio am safle arall. Gwastraff arian ac ymdrech yw ceisio cael cnwd ar dir gwlyb.

Gellir gwella tir ymylol gyda gwely pridd wedi ei godi a'i wella ymhellach gyda thaenfa polythen.

Mae'n hanfodol bwysig dadansoddi'r pridd cyn plannu a gellir cynnal profion hefyd ar gyfer afiechydon megis *verticillium wilt*. Dylai planhigfa dda bara am 10-12 mlynedd felly mae'n werth mynd i ychydig o drafferth ar y dechrau i gael cychwyn iawn.

Mae mafon yn dueddol o ddiodef oddi wrth heintiau firydol a bydd y cnwd yn methu os caiff ei heintio. Wrth ddechrau felly, mae'n hollbwysig cael stoc ardystiedig. Yn ffodus, mae stoc ardystiedig, sy'n addas ar gyfer Cymru, ar gael gan Welsh Fruit Stocks e-bost sian@welshfruitstocks.co.uk. Mae ganddynt ddewis da, yn cynnwys organig. Cyflenwyr eraill yw Hargreaves e-bost sales@hargreavesplants.co.uk neu Walpoles sales@rwwalpole.co.uk.

Mae deunydd planhigion traddodiadol (stoliau) ar gael i'w plannu yn y tymor cwsg, h.y. Tachwedd-Mawrth. Yn ddiweddar, fodd bynnag, mae gwiall hir i'w plannu a phlanhigion modiwl hefyd wedi dod ar gael. Weithiau caiff gwiall hir eu storio'n oer i roi cynnyrch y tu allan i'r tymor a gellir eu sefydlu yn y tymor cwsg er mwyn cael cynydu'n gynt yn y flwyddyn gyntaf. Gellir plannu modiwlau unrhyw bryd, ond efallai y bydd angen dŵr os oes bygythiad sychder.

Ceir y canlyniadau gorau fel rheol trwy blannu ym Mawrth.

MATHAU

Mae mathau da o mafon yn cynnwys Glen Moy (cynnar) gan fynd ymlaen i Glen Ample (cynnar-canol tymor) ac yna Tulameen (canol tymor hwyr) ac Octavia (hwyr – Awst).

Mae coed sy'n ffrwytho yn yr hydref, neu fathau primocane, yn cynnwys Polka, Autumn Bliss, Himbo Top, a Joan Squire.

Fel rheol mae gostyngiad mewn cynhyrchu rhwng Octavia a'r mathau primocane.

PLANNU

Fel rheol mae gwiall mafon yn cael eu plannu gyda 3.5 m rhwng rhesi a 0.45 m i lawr rhes gan roi 6,350 o blanhigion i'r hectar (ond gweler twneli isod). Gellir plannu gwiall â llaw; fel rheol mae dau yn gwneud hyn – mae un yn gwneud hollt yn y ddaear gyda rhaw finiog ac mae'r llall yn rhoi'r planhigyn yn yr hollt. Ar raddfa fawr gellir defnyddio offer arbenigol i agor rhychau ar gyfer plannu.

Y rheol aur gyntaf yw PEIDIO Â PHLANNU FFRWYTHAU GWIAIL YN DDWFN. Rhwng hwy cyn agosed â phosibl at y lefel feithrin a pheidiwch â'u sadio'n ormodol.

Peidiwch â phlannu pan mae'n wlyb.

Ac eithrio gwiall hir, sy'n cael eu cynnal gyda physt a gwifrau wrth eu plannu, caiff y gwiall eu torri i lawr i 0.6m ar ôl plannu. Mae hyn yn helpu i'r gwynt beidio â'u hysgwyd a'u rhyddhau.

Ceir gwell cnwd fel rheol trwy ddyfrhau gyda thâp diferu. Caiff y gwiall eu dyfrhau a'u bwydo o gyfnod dechrau blodeuo i ddiwedd hel y ffrwyth, a dylid defnyddio tua 25mm o ddŵr yr wythnos.

Unwaith y byddant wedi eu plannu bydd egin ifanc yn dechrau tyfu o waelod o gwiall. Y gwiall newydd hyn fydd gwiall ffrwytho'r flwyddyn wedyn (ac eithrio'r mathau primocane a fydd yn ffrwytho'r un flwyddyn).



Mafon yn cael eu cynnal gan ddelltwaitth

Wrth iddynt ddod i'r amlwg mae'r gwiall yn hawdd eu niweidio ac mae'n bwysig cadw golwg fanwl arnynt. Os yw'r gwiall yn cael eu bwyta i lawr i'r pridd mae'n debyg mai malwod neu gwingod sy'n gyfrifol - rhwng beledau lladd malwod o'u hamgylch neu wifrau rhag cwingod. Os ydynt yn cael eu bwyta o dan y pridd ac i'w gweld yn gwywo, mae'n debyg mai cynrhon lledr yw'r bai; mae hyn yn arbennig o wir os yw'r gwiall yn dilyn y dywarchen.

DELLTWAITH

Yn ddefnyddol, bydd pob gwialen yn cynhyrchu 1–3 o wiall newydd i ffrwytho'r hydref hwnnw (primocane) neu'r haf wedyn. Mae'n rhaid clymu'r gwiall newydd hyn ac felly mae angen system o byst a gwifren. Mae'n rhaid gosod hon fan bellaf y mis Medi ar ôl plannu. Gosodir pyst cadarn bob pen ac yna pyst bob rhyw 20m, ond bydd angen eu rhoi'n nes at ei gilydd na hyn ar safleoedd gwyntog.

Mae angen i 1.6 m o'r postyn fod uwchlaw'r ddaear, felly mae angen pyst o leiaf 2m o hyd. Mae'n rhaid trin y pyst rhag iddynt bydru.

Caiff dwy res o wifrau (trwch 12 fel rheol) eu hymestyn rhwng y pyst ar uchder 0.7m a 1.5m i glymu'r gwiall wrthynt. Weithiau defnyddir llinyn i glymu'r gwiall wrth y wifren isaf neu'r ddwy wifren. Ar y brig caiff gwiall eu sicrhau â llinyn neu glipliau plastig. Mae'n bwysig i wystro'r gwiall rhag symud neu bydd hynny'n achosi difrod i'r aeron.

TWNELAU

Erbyn yn mae'r rhan fwyaf o ffrwyth ar gyfer archfarchnadoedd yn y DU yn cael eu tyfu mewn twnelau. Os ydych yn ystyried tyfu eich cnwd mewn twnelau, cynlluniwch i gael 3 rhes mewn twnell 8 metr. Mae twnelau'n cael eu codi naill ai ym Mawrth ar gyfer cynydu cynnar neu i warchod cynydu prif dymor a primocanes rhag glaw.

CYNNYRCH

Bydd planhigfa dda yn cynhyrchu 12 tunnell /ha. Fodd bynnag, ceir amrywiaeth o 2.5 - 15 tunnell, felly mae gwerth hwsmonaeth dda yn amlwg iawn. Mae prisiau'n amrywio o £3 - £7 y kilo yn dibynnu ar farchnadoedd. Dylai planhigfeydd fod yn cynhyrchu i'w llawn botensial erbyn eu trydedd flwyddyn.